

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref gynhaliwyd ar **nos Fawrth 13 Hydref 2020 am 7.00 o'r gloch**. Cynhaliwyd y cyfarfod o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-10/20: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies-Hughes; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams; Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Alice Roberts; Cyng. Robert T Price;

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-10/20 Ymddiheuriadau:

3-10/20 Datgan diddordeb

4-10/20 Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Medi 2020

Cadarnhawyd a llofnod y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-10/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

1. Nodwyd bod safle We dros dro'r Cyngor Tref yn fyw a bod drafft cychwynnol o'r safle We newydd wedi ei baratoi.
2. Nodwyd y bydd ymgynghoriad ar safel newydd i Ysgol Treferthyr.

6-10/20: Gohebiaeth

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

Nid oedd ymateb wedi dod i law eto gan Swyddog Cyngor Gwynedd re y biniau i'r dref.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

2. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

Roedd y Clerc wedi bod yn cyfathrebu gyda swyddog yr Heddlu ac wedi cael dyddiad i gwrdd gyda'r trigolion – sef 21 Hydref.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

3 Datganiad safbwynt Cyngor Nefyn

Mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Tref Nefyn, pasiwyd cynnig yn datgan cefnogaeth i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol: (Gweler [Atodiad 1](#))

Roedd Cyngor Tref Nefyn yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried cefnogi ei gynnig ac i ddwyn y gefnogaeth i sylw Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir er mwyn iddynt gyflwyno mesurau fyddai'n gwneud gwahaniaeth ac yn galluogi pobl leol i aros a byw yn eu cynefin.

Penderfyniad

Cytunodd y Cyngor Tref i gefnogi'r cynnig yn [Atodiad 1](#) ac i ddwyn y gefnogaeth hynny i sylw Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir.

4. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant Hydref 2020

Roedd manylion y cyrsiau ar-lein wedi eu cylchredeg.

Penderfyniad

Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os am gofrestru.

5. Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol– Adroddiad drafft

Roedd yr adroddiad drafft wedi ei gylchredeg ar gyfer sylwadau.

Penderfyniad:

Nid oedd sylwadau ond dylid cyfeirio at sylw'r Pwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol er mwyn paratoi cyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 ar ddyddiad i'w drefnu ym mis Tachwedd

6. Llythyr re baw ci –

Trafodwyd llythyr cwyn a oedd wedi ei dderbyn yn gofyn am ystyried i ymestyn gwahardd cwn ar y traeth i ardal Abereistedd.

Penderfyniad

I beidio â chefnogi'r cais - ond i ystyried eto os bydd rhagor o gwynion yn dod i law.

7-10/20 Ceisiadau cynllunio

Nid oedd ceisiadau wedi dod i law.

8-10/20: Llenwi Sedd Wag y Cyngor Tref

Croesawyd y ddau ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais ar gyfer y sedd wag i roi cyflwyniad byr i'r Cyngor Tref. Diolchwyd iddynt am ei ceisiadau a oedd wedi'u cylchredeg i aelodau'r Cyngor. Yn dilyn y cyflwyniadau cafwyd pleidlais yn dilyn rheoliadau'r Cyngor Tref.

Penderfyniad

Ar sail canlyniad y bleidlais, etholwyd Dr Peter Harlech Jones yn Gyngorydd i'r Cyngor Tref. Bydd angen iddo lenwi ffurflen derbyn swydd erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

9-10/20: Diweddariad Cyllid 2020/21

Roedd adroddiad ariannol gan y Clerc wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau ac yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Medi2020 a'r cysondeb banc am y cyfnod. Nodwyd bod £8,634.14 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £68,760.00 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd nifer o'r taliadau sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod – gan gynnwys ee. costau torri gwair a'r toiledau i Gyngor Gwynedd, talu am safle We newydd, gwariant ar y cynllun cymunedol, cyfraniadau. Roedd £60,344.76 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,524.24 yn y cyfrif 'Money Manager'.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth a diolch i'r Clerc am yr adroddiad.

10-10/20 Cynllun Cymunedol

1. Prosiect Cymunedol Cae Crwn

Nodwyd bod gwaith ar y ffurflen gais wedi'i gwblhau - ac ar fin cael ei gyflwyno i'r Loteri. Roedd y gwaith ar y cais 6,000 o eiriau wedi bod yn sylweddol ac yn cynnwys nifer o lythyron tystiolaeth o gefnogaeth i'r prosiect, gwybodaeth am y les, hawl cynllunio ac adroddiad bioamrywiaeth gan Gyngor Gwynedd. Roedd yn gais gan y Cyngor Tref mewn partneriaeth gydag Ysgol Treferthyr, Ffrindiau Gardd Natur a Chyngor Gwynedd. Roedd neges am y prosiect wedi'i osod ar Hwb Criccieth yn gwahodd unigolion i fynegi ei diddordeb i'r Cyng. Phil Jones. Nodwyd bod grant arall newydd ei gyhoeddi ar gyfer Rhandiroedd.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth a diolch yn fawr i'r Clerc am ei gwaith yn cydgorffio'r cais gydag aelodau yn y bartneriaeth a Chwmni Celyn. Dylid edrych i mewn i wneud cais am y grant newydd os nad oedd hynny'n amharu ar y cais i'r Loteri.

2. Map ar gyfer y dref

Dal i aros am ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd am ganiatâd gosod mapiau A1 wedi'u lamineiddio ar fyrddau yn y gwahanol leoliadau cytunwyd arnynt o amgylch y dref. Roedd y Cyng. Ffion Gwyn wedi bod mewn cyfarfod dros y We gyda grŵp lleol Merched y Wawr ac roeddent yn diolch yn fawr ac yn llongyfarch y gweithgor fu'n ei baratoi. Roedd yn gaffaeliad mawr.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth.

3. Adeilad yr Hen Lyfrgell

Roedd y Clerc wedi sgwennu at y cyfreithiwr yn cyfleu penderfyniad y Cyngor – aros am ymateb.

Penderfyniad:

Y Clerc i gysylltu gyda'r cyfreithiwr.

4. Arddangosfa Stryd Fawr a Chofio 2020

Nodwyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen ar gyfer arddangosfa ffenestri siopau yn y dref ar gyfer y Cofio mis Tachwedd 2020 mewn cydweithrediad gyda'r Fforwm Busnes. Roedd hyn yn cynnwys defnydd o ffenest yr hen siop greffttau - gyda'r gwaith prosiect ar gyfer diwrnod VE a hefyd peth o waith Cofio Cyfraniad Criccieth 2018. Bydd yr arddangosfa ar gael tan y Nadolig ac yn cynnwys torchau gyda phabis coch gweu crochet ar gyfer siopau'r Stryd Fawr. Ni fydd y gwasanaeth arferol na gosod torchau yn y Neuadd Goffa eleni yn sgil y pandemic - bydd fideo yn cael ei gydgydio a'i gynhyrchu gan y Cyng. Ffion Gwyn ar gyfer facebook a youtube i nodi'r cofio.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth a diolch i bawb am eu gwaith.

5. Goleuadau Nadolig 2020

Roedd y Clerc wedi bod yn trafod gyda'r trydanwr y posibilrwydd o droi'r goleuadau ymlaen ynghynt eleni er mwyn ymestyn cyfnod Croeso Dolig yn y dref a fydd yn dra gwahanol eleni - Ni fydd y noson Croeso Dolig arferol i droi'r goleuadau ymlaen ond y bwriad oedd cynnal digwyddiadau yn siopau dros gyfnod o sawl diwrnod, a dangos fideos ac ati ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd cystadleuaeth arlunio llun yn cael ei drefnu.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth a chytuno gyda throi'r goleuadau stryd ymlaen ynghynt. Y Clerc i gadarnhau gyda'r trydanwr. Diolchwyd i'r Cyng. Phil Jones am gynnig helpu gyda gosod y coed ar siopau'r Stryd Fawr.

11-10/20: Archwiliad Allanol 2019/20

Dim ymateb hyd yma gan yr Archwilwyr Allanol-

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

12-10/20: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

Nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu eto at Swyddog Cyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ddiolch am y gwaith diweddar i atgyweirio gataiau ac i gynnig cyfarfod maes – nid oedd ymateb wedi dod hyd yma.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

13-10/20: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at y difrod ychwanegol oherwydd tywydd gwael. Roedd wedi cael ymateb: yn ymddiheuro am yr oedi a oedd wedi bod yn cyflawni'r gwaith yma. Yn anffodus, oherwydd y dyletswydd Statudol a oedd wedi ei ddynodi i Gyngor Gwynedd fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, roedd blaenoriaeth yr Uned dros y ddau fis diwethaf wedi ei gyfeirio at ymchwilio'r holl ddigwyddiadau o lifogydd a brofwyd ledled Gwynedd o ganlyniad i stormydd mis Awst. Serch hynny, roedd y Swyddog yn cadarnhau fod y gwaith hynny yn dechrau ysgafnhau, a oedd yn golygu eu bod wedi dechrau gallu rhyddhau rhai o'r swyddogion i edrych ar flaenoriaethau eraill yr Uned, gan gynnwys y gwaith atgyweirio yng Nghriccieth. O ystyried hynny roedd yn gobeithio y bydd y pecyn tendr wedi ei gwblhau a'i chyhoeddi i gontractwyr lleol yn fuan iawn gyda'r contractwr llwyddiannus yn cael ei apwyntio yn dilyn cyfnod tendro byr. Roedd amserlen y gwaith yn amodol ar dywydd a llanw ffafriol ond roedd yn obeithiol y caiff ei wneud yn gynt yn hytrach na hwyrach. Gan fod y Cyngor Tref wedi tynnu sylw fod mwy o niwed wedi digwydd yn yr wythnosau diwethaf, roedd swyddog am alw draw i Griccieth i asesu'r difrod hwn a chynnwys unrhyw waith angenrheidiol i mewn yn y dogfennau tendr.

Penderfyniad:

Derbyn a diolch am yr adroddiad.

14-10/20: Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Yn dilyn y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf i ofyn am gyfarfod maes gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref i drafod trafndiaeth yng Nghriccieth, roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd - nid oedd wedi cael ymateb eto.

Penderfyniad:

Cyng. Eirwyn Williams i gysylltu gyda'r Swyddog ynglŷn â'r diffyg ymateb.

15-10/20: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi iddynt dorri uchder y clawdd Llwybr rhif 1 ond heb gael ymateb eto

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

16-10/20: Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-10/20: Torri Coed yng Nghriccieth

Ers y cyfarfod diwethaf roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwmpo ar y Maes ger y coed eucalyptus . Roedd y Cyngor Tref wed trafod y mater yn y cyfarfod diwethaf fel rhan o'r drafodaeth ar y cais cynllunio i docio'r coed - a chonsyrn y Cyngor Tref am ddiogelwch a'r angen i ail- wynebu'r ardal wedi ei fynegi fel ymateb i'r cais cynllunio. Mi wnaeth y Cyng. Eirwyn Williams adrodd am y ddamwain i'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd. Cafwyd adroddiad yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf gan Gyngor Gwynedd:

- Roedd y safle wedi ei lanhau yn drylwyr y dydd o'r blaen.
- Bydd gwaith o symud un bolard yn digwydd er sicrhau mynediad i'r peiriant ysgubo.
- Bydd asesiad o gyflwr y slabiau ac o bosib edrych ar gychwyn ail-osod/ail-wynebu - dibynnol ar gyllid.
- Mewn perthynas â'r coed – gan eu bod mewn ardal cadwraeth, roedd ymgynghoriad drwy'r drefn cynllunio am y tocio yn cau ar y 15fed o Hydref.

Yn y cyfarfod diwethaf, codwyd pryder ynghylch yr anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed. Roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd sydd am wneud asesiad o'r sefyllfa a dod 'nôl gydag adroddiad. Mae'r swyddog wedi son bod yna "Ash die back" ar un o'r coed.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a chemeradwyo cynnig ar gyfer y Maes:

- Bod tâp yn cael ei osod dros dro er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd pobl yn cerdded ar yr ardal;
- Bod arwyddion priodol yn cael eu gosod dros dro
- Cynnig fel un datrysiad bod y reiliau presennol yn cael eu ymestyn er mwyn peidio annog cerddwyr o dan y coed.

18-10/20 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd

19-10/20 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref

Roedd angen trefnu cyfarfod blynyddol o'r Cyngor Tref cyn diwedd 2020.

Penderfyniad:

I gynnal y Cyfarfod Blynyddol ar 10 Tachwedd.

20-10/20 Derbyniadau

Dim

21-10/20: Taliadau

- | | |
|--|-----------------------|
| • Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE) | £44.00 (siec 101422) |
| • Cyflog Clerc (Awst) | £853.00 (siec 101423) |

- Delwedd Ltd.

£190.25 (siec 101424)

Penderfyniad:

Rhodddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

Daeth y cyfarfod i ben am 20.40 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref a fydd yn cynnwys y Cyfarfod Blynyddol ar Nos Fawrth 10 Tachwedd 2020.

****Bydd y rhaglen yn cau 2 Tachwedd 2020****

Dr Catrin Jones
Clerc

Atodiad 1

Penderfyniad Cyngor Tref Nefyn i gefnogi'r mesurau canlynol i ddelio â'r sefyllfa dai:

- Awdurdod Lleol i gael rheolaeth ar y farchnad dai.
- Gorfodaeth i dai sydd ar y farchnad gael eu cynnig i bobl leol yn gyntaf.
- Yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn, mae rhai mannau yn cael eu dynodi fel 'ardaloedd arfordirol' a dim ond tai fforddiadwy ellir eu codi yn yr ardaloedd hynny. Mae angen i bob ardal yng Ngwynedd gael yr un warchodaeth â'r ardaloedd 'arfordirol'. Yn ardal Cyngor Tref Nefyn, mae Morfa Nefyn ac Edern yn cael gwarchodaeth 'ardal arfordirol' ond nid oes gan Nefyn yr un warchodaeth.
- Ailddiffinio 'Tai Fforddiadwy' fel eu bod o fewn cyrraedd pobl leol ac yn ystyriol o gyflog cyfartalog Gwynedd.
- Gweithredu system fandiau wrth weinyddu rhestr aros tai cymdeithasol fyddai'n gwneud byw'n lleol neu gyswllt lleol yn hanfodol.
- Gorfodaeth i wneud cais cynllunio os am droi tŷ yn ail gartref/dŷ haf.
- Rheolaeth gymunedol ar y farchnad dai.
- Mabwysiadu Cynllun Datblygu Cymunedol i Gymru. Mae Cynghorau Tref yng Nghernyw eisoes yn ymarfer cynllun cyffelyb.
- Gorfodaeth ar berchnogion sy'n perchnogi tŷ haf/ail dŷ yn enw busnes i dalu'r gyfradd uwch o dreth cyngor.

- Codi cyfradd treth Cyngor ar dai haf i adlewyrchu'r ffaith mai Gwynedd sydd â'r ganran uchaf yng Nghymru o dai sy'n dai haf. Mae Cyngor Abertawe eisoes wedi codi cyfradd treth cyngor i 100%.

- Codi cyfradd Treth Trafodiad Tir ar dai haf/ail gartefi.

- Gorfodaeth i gael caniatâd cynllunio er mwyn rhoi eiddo ar Airbnb am gyfnodau hir o'r flwyddyn. Bydd treth gosb ar gyfer tai sydd yn cael eu rhentu ar Airbnb am gyfnodau hir o'r flwyddyn.

- I Lywodraeth Cymru ddarparu nawdd i alluogi Cyngor Gwynedd i gyd-berchnogi canran o dai ar y cyd â phobl leol. Byddai perchnogi ar y cyd yn galluogi rhywun i brynu tŷ ac yn fodd i sicrhau bod tai yn aros yn lleol.
